Cymro'r Carchar

Cip John Glyn Parry

YN DDIWEDDAR daeth i feddiant y Llyfrgell Genedlaethol bapur newydd unigryw iawn sef **Y Cymro.** Na, nid **Y Cymro,** wythnosol yr ydym ni yn gyfarwydd ag ef ond papur newydd a gynhyrchwyd gan aelodau o Gymdeithas y Cymric yng ngharchar Stalag IVB ger Muhlberg yn yr Almaen yn ystod yr ail ryfel byd.

Cyhoeddwyd wyth rhifyn i gyd, sef tri rhifyn arferol, un rhifyn arbennig ar gyfer Nadolig 1944 a phedwar 'atodiad'. Yn anffodus nid yw'r rhifyn cyntaf wedi goroesi tra bod yr ail rifyn yn anghyflawn a hynny oherwydd problem y mae sawl golygydd yng Nghymru yn gyfarwydd â hi: diffyg cyfranwyr! Y mae'r holl rifynnau wedi eu dyddio rhwng misoedd Mai a Rhagfyr 1944.

Dim ond un copi o bob rhifyn a gyhoeddwyd. Wedi cwblhau'r rhifyn byddai'r papur yn cael ei roi ar fur un o gytiau'r carchar i'w ddarllen.

* * *

MAE cynnwys y rhifynnau arferol a'r atodiadau yn dra gwahanol. Yn y rhifynnau arferol ceir barddoniaeth, straeon byrion, cartwnau ac erthyglau am Gymru, megis hen chwedleuon, hanesion y catrodau Cymreig a newyddion o Gymru.

Ceir mwy o bwyslais ar y gwersyll yn yr atodiadau. Rhoddir cryn sylw i gemau rygbi a phêl-droed a chwaraewyd yn y gwersyll ac i ornestau paffio a cheir newyddion am ddigwyddiadau o fewn Cymdeithas y Cymric ac o fewn y gwersyll.

Ond nid yw'r gwersyll yn cael yr holl sylw o bell ffordd. Er enghraifft, ceir cyfres o erthyglau ar glybiau rygbi blaenllaw Cymru megis Llanelli, Caerdydd a Chasnewydd.

Tra gwahanol eto yw'r rhifyn arbennig ar gyfer Nadolig 1944. Mae'r rhifyn yma yn fwy sylweddol ac yn fwy lliwgar a'i gynnwys yn bennaf yw atgofion rhai o'r carcharorion am dreulio'r Nadolig yng Nghymru cyn y rhyfel.

Prin iawn, mae'n rhaid cyfaddef, yw'r Gymraeg – dim ond tudalen yn y trydydd rhifyn yn dwyn y teitl 'Y Gornel Gymraeg', a dyna'r cyfan.

Golygwyd y papur gan W.J. Pitt sydd yn fyw o hyd ac iddo ef yn anad neb y mae'r diolch fod y papur newydd unigryw hwn wedi goroesi.



Cymro

A MAGAZINE PRODUCED FOR AND BY MEMBERS OF THE 'CYMRIC CLUB'.

NUMBER 2. · CYMRU AM BYTH · MAY 1944

MEDDYLIAU GAN IDWAL DAVIES

CORNEL-GYMRAEG DAN OFGIAETH MRS. W. EVANS

CANU'R BEIRDD-

NEWS FROM HOME

It is beleived that the Welsh people have forwarded a petition to the King requesting that as there is no Prince of Wales, Princess Elizabeth be made Princess of Wales on her 18th Birthday.

The National

The National Eisteddfod of Wales for 1945 will be held at Rhosllanerchrugog (Rhos) near Wrexham (will the Cymric Club attend in force?).

Denahar beats James

Arthur Danahar beat Bonnie James on points in a 6 round Army Boxing Match on May 6th. This result was expected as James was giving away a lot of weight. To get fights nowadays James has had to leave the lightweights to go into the Welter division.

The BBC have given Eric Boon until June 20 to defend his title against Bonnie James.

Welsh Interlude

In the little village of Rhostryfan, Caernarvonshire, a dispute between the two local deacons developed into a fight after the church service on Sunday evening. Now one of the families goes to another chapel.

Random Items

The King and Queen visited Merthyr Tydfil towards the end of March.

A Welsh choir is to be formed in Birmingham.

WRENS are now stationed at Milford-Haven.

SAWL CYMRO?

GOLYGA darganfod y copiau o'r "Cymro" prin yma fod yna o leiaf saith o bapurau newydd neu gylchgronau wedi defnyddio'r teitl. Mae copi anghyflawn o gylchgronau Y Cymro am 1822 yn y Llyfrgell Genedlaethol ac ym Mangor. Cyhoeddwyd yn Llynlleifiad.

Yna cyhoeddwyd yn Llundain gylchgrawn Y Cymro yn 1830 a benderfynodd ei sgrifennu yn Y Cymmro yn 1831, ei flwyddyn olaf.

Sefydlwyd Y Cymro ym Mangor yn 1848 a argraffwyd wedyn mewn oes fer yn Llundain, Treffynnon, Dinbych. Yn 1890 sefydlodd Isaac Foulkes Y Cymro yn Lerpwl. Cyhoeddwyd Y Cymro yn Nolgellau yn 1914 i ymladd Y Goleuad wedi ymrafael yn yr Hen Gorff. Dyma'r papur a brynwyd yn 1932 i greu Y Cymro presennol.